Ysgol Iolo Morganwg
Gweledigaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Strwythur Adnoddau

Yn Ysgol Iolo Morganwg ceisiwn sicrhau bod adnoddau TGCh o ansawdd da sy'n hygyrch i bawb. Trwy ddefnyddio ffeiliau dysgu electonig ar gyfer staff a phlant rydym yn sicrhau bod pawb yn datblygu sgiliau ac yn medru defnyddio TGCh fel adnodd rhyngweithiol, cyffrous a chreadigol. Ceisiwn leihau'r trafferthion sy'n maharu ar ddysgu trwy gynnig cefnogaeth glir a phendant. Byddwn yn adnewyddu adnoddau, yn ychwanegu ac addasu yn ol gofynion yr ysgol ac yn sgil technoleg newydd gan barhau i sicrhau gwerth am arian a cynaladwyedd.

Gwella Addysgu TGCh

Defnyddiwn DGCh yn effeithiol i gefnogi a gwella'r addysgu. Anogwn ymdeimlad o gymryd risg a rhannu arfer da i wella gwersi. Byddwn yn parhau i gynnal a chodi sgiliau TGCh athrawon trwy raglen datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cwmpasu gofynion unigolion a gofynion strategol TGCh yr ysgol. Caiff TGCh ei addysgu fel pwnc a bydd yr holl ddisgyblion yn parhau i gael cyfleoedd cyffrous i gymhwyso sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Gwella Dysgu TGCh

Yn Ysgol Iolo morganwg rydym wedi creu awyrgylch ble mae staff a phlant yn dysgu amrywiaeth o sgiliau TGCh a sut i ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn ffyrdd creadigol a hyderus mewn pynciau gwahanol. Annogwn ein disgyblion i fodd yn ddysgwyr annibynol ac yn ddefnyddwyr hyderus o DGCh tra'nparhau i ddatblygu sgiliau dysgu allweddol megis sgiliau ymholi a meddwl, rhifedd a chyfathrebu. Caiff amrediad ac ansawdd profiadau'r plant eu hymestyn trwy ddefnydd o DGCh sydd wedi ei seilio ar wybodaeth a gallu'r disgyblion. Daliwn ati i ddatblygu ddisgwyliadau uchel a hyder yn ein staff a'n disgyblion er mwyn iddynt ddefnyddio TGCh yn effeithiol fel adnodd sy'n addas ar gyfer eu dysgu a'u haddysgu.

Codi Safonau a Chanlyniadau

Fe fydd defnydd o DGCh yn parhau i godi safonau ar draws y cwricwlwm yn nhermau cynnwys a chyflwyniadau. Fe fydd hefyd yn parhau i godi hunan hyder, hunan ddelwedd a chymhelliant ar gyfer dysgu. Byddwn yn ymestyn ac yn datblygu TGCh fel modd i fonitro gwybodaeth asesu er mwyn dadansoddi

Created using easyPDF Printer
Click here to purchase a license to remove this image

cyrhaeddiad a goresgyn tangyflawni nawr ac yn edrych ar ffyrdd newydd o ddefnyddio TGCh fel adnodd rheoli. Ymestynnwn gyfleoedd dysgu pob disgybl ymhellach eto trwy ddatblygu cysylltiadau cryfach a mwy effeithiol rhwng y cartref, yr ysgol a'r gymuned. Byddwn yn gwella'r modd o gyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned ehangach, ac yn datblygu cysylltiadau byd eang i greu ethos o bartneriaeth mewn dysgu.

Created using
easyPDF Printer
Click here to purchase a license to remove this image